## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – INFERTEBRATAU ERAILL ADRAN 7 'Â BLAENORIAETH'

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae’r rhywogaethau sydd wedi’u rhestru yn y tabl hwn wedi’u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae’n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae’r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella’r rhywogaethau a’r mathau o gynefinoedd sydd wedi’u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o’r fath. Drwy ddiogelu’r rhywogaethau a’r cynefinoedd hyn, gwella’r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i’r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau yma wedi cael eu cofnodi yn Sir Gaerfyrddin ers cryn amser, ond rydym wedi'u cynnwys am ei bod hi'n ddigon posib bod hyn yn deillio o ddiffyg cyfle i wneud gwaith cofnodi.

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Asilus crabroniformis* pry lleidr cacynaidd<br><br>Hyd: 25 mm<br>© Sam Bosanquet | • **Cynefin cysylltiedig:** Gweundir a glaswelltir yr iseldir<br>• **Statws presennol:** Fe'i cofnodwyd ddiwethaf yn Sir Gaerfyrddin yn 2005 yng ngorllewin y sir, ond gallai fod wedi goroesi ar ambell un o'r nifer fach o borfeydd heb eu gwella yn y sir.<br>• Mae'n hedfan yn hwyr yn yr haf (Gorffennaf-dechrau mis Medi)<br>• Rhywogaeth y mae ei niferoedd wedi gostwng yn sylweddol ar borfeydd heb eu gwella i wartheg neu geffylau, sydd bellach yn brin iawn yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Tueddiadau:** ↓<br>• **Bygythiadau:** Ar wahân i golli cynefin, mae'r defnydd o gyffuriau ivermectin (a meddyginiaethau eraill i anifeiliaid) i reoli pryfed mud ac ati mewn ceffylau a pharasitiaid mewnol eraill mewn gwartheg wedi effeithio'n ddifrifol arni. Caiff y cemegau hyn eu hysgarthu mewn tail gan ladd larfae chwilod y dom sy'n ysglyfaeth i larfae *Asilus.* | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl.<br>• Potensial am arolwg lle mae'r cyhoedd yn cymryd rhan. |
| *Eucera longicornis* gwenynen hirgorn<br><br>© Liam Olds | • **Cynefin cysylltiedig:** glaswelltir yr arfordir, wynebau meddal ar glogwyni, ymylon gweundir, rhodfeydd coetirol a llennyrch, ac weithiau ardaloedd tir llwyd<br>• **Statws presennol:** anhysbys. Un o wenyn unig mwyaf y DU. Yn Sir Gaerfyrddin fe'i cofnodwyd yn 2021 yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - y cofnod cyntaf ers 2005. Dim ond pum cofnod ers 2000.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** colli cynefinoedd llawn rhywogaethau | |
| *Chrysis fulgida* cacynen gynffon ruddem | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwelir cacwn cynffon ruddem yn aml yn rhedeg dros waliau, cloddiau a boncyffion coed yn chwilio am nythod y pryfed (cacwn a gwenyn eraill fel arfer) y maent yn barasit arnynt. Bydd *Chrysis ignita* yn parasiteiddio saerwenyn yn bennaf, ac fe geir hyd iddo'n aml yn chwilio am nythod mewn hen waliau cerrig. Ceir hyd iddynt amlaf mewn mannau sych a chynnes.<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, fe'i cofnodwyd am y tro cyntaf yng Nghymru gan Amgueddfa Lerpwl ar faes tanio Pen-bre yn 2005 (yn ystod arolwg wedi'i gyllido gan | |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | Gyngor Cefn Gwlad Cymru o bryfed colynnog ar dwyni Cymru). Fe'i cofnodwyd eto yng Nghoedwig Pen-bre yn 2008, 2012, 2013, 2015 a 2017. Y mae ymhlith nodweddion cymhwyso SoDdGA Arfordir Pen-bre, ac yn nodwedd bwysig o'r goedwig.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** anhysbys | |
| gwybedyn Mai haearnlas *Nigrobaetis niger (Baetis muticus)* | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir / dŵr croyw<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, ceir cofnod o Barc Dinefwr yn 2003.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** newidiadau i strwythur a'r rheolaeth ar lystyfiant ymylol a glannau afon; llif isel yn sgil tynnu dŵr; lefelau uchel o laid yn cael ei ddal yn ôl yn y dŵr; carthu ansensitif | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Vertigo angustior* malwen droellog geg gul<br><br>O'r chwith i'r dde *Vertigo angustior* a *V. substriata*<br><br>**DS.** Sylwch fod cragen *V. angustior* yn troelli i'r chwith tra bo *V. substriata* yn troelli i'r dde.<br><br>Ceir rhesi ar yr *angustior* a'r *substriata* ond mae gwahaniaeth amlwg o ran y patrwm troellog.<br><br>Mae'r cregyn tua 1.5mm o hyd ac 1mm o led<br><br>© John Harper | • **Cynefin cysylltiedig:** Fel arfer mae'n byw yn y rhyngwyneb rhwng cynefinoedd twyni tywod a rhannau uchaf morfeydd heli (fel yn Nhwyni Whiteford). Roedd y safle y tu ôl i Goedwig Pen-bre lle cafwyd hyd iddi yn arfer bod yn gangen o'r môr, gan greu'r rhyngwyneb o forfa heli- twyni tywod a ffafrir gan y rhywogaeth hon.<br>• Lliw melyn-frown golau sydd i'r gragen, gyda llawer o resi twf cul a phum troell. Mae 5-6 dant yng ngheg y gragen, ac mae wedi tewychu. Cragen sinistraidd yw hi, sy'n golygu bod patrwm troellog y corff yn dilyn cyfeiriad clocwedd, ac mae'r geg yn agor ar ochr chwith y corff.<br>• **Statws presennol:** anhysbys. Cafwyd hyd i'r boblogaeth hysbys fwyaf yng Nghymru yng Ngwarchodfa Natur Twyni Whiteford. Cofnodion ychwanegol o Goedwig Pen-bre, Maes Tanio Pen-bre a'r gors bori sydd yn union i'r gogledd o'r goedwig yn 2012, 2013, 2014 a 2016. Sawl poblogaeth ond niferoedd bychain.<br>• Gan ei bod hi'n falwen mor fach ac yn hawdd ei methu, mae'n bosib ei bod yn dal yn bresennol ar y safleoedd olaf yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys.<br>• **Bygythiadau:** mae'n agored i niwed yn sgil newidiadau i amodau hydrolegol, llai o bwysau pori ac amharu ffisegol. | • Wedi'i chynnwys fel un o'r rhywogaethau ym mhrosiect Natur am Byth Cymru<br>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd newydd posibl eraill. |
| *Meloe violaceus* chwilen olew borffor<br><br>© Steven Falk | • **Cynefin cysylltiedig:** Gellir dod o hyd i'r rhywogaeth hon mewn cynefinoedd ar gyrion coetir, llennyrch a rhodfeydd, rhostir uchel a glaswelltir llawn blodau.<br>• **Statws presennol:** Mae dosbarthiad y chwilen hon wedi gostwng yn ddramatig ledled y DU. Mae'n ddibynnol iawn ar laswelltiroedd lled-naturiol llawn blodau gwyllt sydd wedi'u cynnal dros y tymor hir.<br>• Fe'i cofnodwyd yn y sir yn 2023 yn Llangynin.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** colli glaswelltir llawn rhywogaethau<br>https://www.buglife.org.uk/bugs-and-habitats/violet-oil-beetle | • Hyrwyddo cofnodion o'r rhywogaeth hon. |
| RHYWOGAETHAU ADRAN 7 A GOFNODWYD O'R BLAEN OND NA FU UNRHYW GOFNOD OHONYNT ERS 2000 | | |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Bembidion quadripustulatum* chwilen ddaear | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir -mwd neu glai noeth sy'n llaith ac weithiau yn y cysgod.<br>• Ceir hyd i'r chwilen hon ar ymylon gwlyptir, gan gynnwys ymylon tywod, mwd neu glai sialcog, ymylon ffeniau â llawer o lystyfiant, ac ymylon lagwnau llaid moel.<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, cafwyd hyd iddi ar lannau Tywi ger Llandeilo yn 1996.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** anhysbys | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Bidessus minutissimus*<br>chwilen blymio<br><br>Hyd: 1.5 mm<br>© Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Hanes Natur, Llundain | • Cynefin cysylltiedig: Dŵr croyw. Ceir hyd i'r chwilen hon ar rannau isaf afonydd, yn gysylltiedig â glannau tywod a graean mân.<br>• **Statws presennol:** anhysbys. Yn Sir Gaerfyrddin cafwyd cofnod yn 1950 ger Pont Llangadog, Afon Tywi, Llangadog.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** colli ei chynefin glannau tywod a graean | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl<br>• Y ffordd orau o warchod y rhywogaeth yw cynnal cynefin addas yn rhan o SoDdGA/ACA Afon Tywi. |
| *Cylindera Germanica* chwilen-deigr y clogwyn<br><br>Hyd: 8 mm<br>© Roger Key | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'r rhywogaeth yn dibynnu ar gylchlithriad sy'n datgelu ardaloedd newydd o glogwyn/bridd moel, ac mae'r math hwnnw o gynefin yn brin yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Statws presennol:** anhysbys. Ceir un cofnod o glogwyni Craig Ddu i'r gorllewin o Lansteffan o 1954.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** anhysbys | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Dipoena inornata* (*Phycosoma inornatum*) copyn/corryn coes gribog | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir - rhywogaeth ar laswelltir sych, graean bras a'r arfordir ac, yn debyg i'r rhan fwyaf o gorynod mae wedi'i dangofnodi a'i statws gwirioneddol yn anhysbys.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>Ceir cofnodion o 1991 o arfordir Sir Gaerfyrddin ger Trwyn Dolwen.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Gall y rhywogaeth hon fod yn doreithiog ar rodfeydd ag ymylon tywodlyd mewn ardaloedd o weundir coediog. Gallai colli'r cynefin hwn wrth glirio coedwigoedd fod yn fygythiad. | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Hydroporus rufifrons* chwilen blymio | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir/dŵr croyw - dyfroedd bas a thros dro mewn hen systemau ystumllyn, porfeydd heb eu gwella, corstiroedd, ffeniau a systemau twyni.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>• Cofnod o 1959 o ddyfrffos y castell, Cydweli. | • Dim ond yn yr hydref a'r gwanwyn y mae'r chwilod llawn dwf yn actif, felly mae'n bosibl na chânt eu gweld mewn arolygon.<br>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>Hyd: 4-5 mm<br>© Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Hanes Natur, Llundain | Gwiriwyd y safle yn 1988 ac ni chafwyd hyd i ddim.<br>• Mewn arolwg yn 2012 daethpwyd o hyd iddi ar Afon Teifi ger Dolau gwyrddon-isaf a Morr Wood (High Mead) – y ddau le yng Ngheredigion ond yn agos at Sir Gaerfyrddin.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Mae poblogaethau yn agored iawn i niwed yn sgil draenio a llenwi pyllau a gwrtaith sy'n llifo o dir amaethyddol.<br>Microsoft Word - Oxbow Diving Beetle -16.02.15 JR.doc (freshwaterhabitats.org.uk) | |
| *Lipsothrix nervosa* pryf teiliwr gïeuog | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'r pryf teiliwr hwn i'w gael ar wlyptir/coetir - brigau a changhennau gwlyb sy'n pydru mewn mannau lle ceir tryddiferu mewn coetir collddail. Credir bod angen cysgod parhaus a chyflenwad cyson o bren sy'n pydru arno.<br>• Mae'r cofnod diweddaraf yn Sir Gaerfyrddin o Barc Ceirw Dinefwr yn 1996.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Hynod agored i niwed oherwydd natur arbennig ei gynefin. | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Margaritifera margaritifera* misglen berlog yr afon<br><br>© Pearlsinperil | • **Cynefin cysylltiedig:** Dŵr croyw<br>• **Statws presennol:** Daw'r cofnodion diweddaraf yn Sir Gaerfyrddin o Afon Tywi, ond credir bellach bod y rhywogaeth yn ddiflanedig.<br>• Fe'i cofnodwyd yn flaenorol yn Afon Taf.<br>• **Bygythiadau:** bridio gwael gan fod yr afonydd mewn cyflwr gwael. Llygredd maethol o dir amaethyddol a gwaddod sy'n golchi oddi ar y tir yn ei gwneud hi'n amhosib iddi fyw yn ein hafonydd. Mae niferoedd y pysgod wedi gostwng felly ni all misglod bach oroesi, ac mae gwelyau misglod yn cael eu tagu â llaid ac algâu gan achosi i'r misglod aeddfed farw. | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl.<br><br>• Bydd prosiect Pedair Afon LIFE yn ceisio gwella cynefin y rhywogaeth hon. |
| *Panagaeus cruxmajor* chwilen ddaear<br><br>Hyd: 8-10 mm<br>© Roger Key | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir (Sir Gaerfyrddin) - cofnodwyd mewn llac twyni. Yn ne a dwyrain Lloegr arferid ei gweld yn lleol mewn cynefinoedd cors a ffen.<br>• **Statws presennol:** anhysbys. Mae anawsterau mynediad wedi golygu bod y cofnodi achlysurol ar Drwyn y Tywyn wedi dod i ben.<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, fe'i cofnodwyd yn ystod arolygon o Dwyni Tywyn o 1985 tan 1998. Collwyd y llac newydd olyniaeth gynnar, lle cafwyd hyd iddi, oherwydd erydiad. Mae'n bosib ei bod yn bodoli o hyd.<br>• Ers hynny cafwyd hyd iddi mewn ambell safle arall ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon; mae'n bosibl ei bod yn gysylltiedig â rhai rhywogaethau o chwilod chrysomelid (*Cassida* spp?) mewn sefyllfaoedd gwlyb. Mae'n ddigon posib ei bod ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn, lle ceir cynefin ffen gwlyb helaethach.<br>• **Tueddiadau:**<br>• **Bygythiadau:** Colli cynefin llaciau twyni | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Spiriverpa lunulate* pryf pigfain arian y Gogledd<br><br>Hyd: 10-11 mm<br>© Roger Key | • **Cynefin cysylltiedig:** Dŵr croyw – yn byw ar ddarnau dyddodol – yn gysylltiedig â glannau afon tywodlyd.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>Fe'i cofnodwyd yn newydd i Sir Gaerfyrddin ar raean Llanwrda tua diwedd y 1980au-dechrau'r 1990au; yma fe'i canfuwyd ar ardaloedd tywodlyd o fewn y cynefin graean, a dim ond un rhywogaeth ydyw o fewn casgliad pwysig o raean. Mae'r safle yn rhan o SoDdGA/ACA Afon Tywi ac wedi bod yn destun monitro.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** anhysbys | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |
| *Thinobius newberyi* chwilen grwydr | • **Cynefin cysylltiedig:** Dŵr croyw – tanddaearol, rhywogaethau sy'n byw'n ddwfn mewn graean wrth ochr nentydd. Ceir hyd iddi o dan gerrig ac ymhlith gwreiddiau glaswellt mân ar lannau nentydd ac afonydd.<br>• **Statws presennol:** anhysbys<br>Cafwyd hyd iddi ar lannau Afon Tywi yn 1998. Mae'n debyg ei bod wedi'i thangofnodi am ei bod yn fach ac yn anodd ei chanfod.<br>• **Tueddiadau:** anhysbys<br>• **Bygythiadau:** Mae ei chynefin mewn perygl yn sgil rheolaeth ar afonydd, boed hynny'n uniongyrchol (tynnu tywod a graean o wely'r afon) neu yn sgil gweithredoedd sy'n amharu ar brosesau afonol. | • Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a oedd yn hysbys yn flaenorol a safleoedd eraill newydd posibl |

Rhywogaethau ychwanegol posibl o Bwysigrwydd Lleol

Dyma restr o Rywogaethau o Bwysigrwydd Lleol eraill y dylem hefyd eu hystyried ochr yn ochr â rhestr flaenoriaeth A7. Gallai'r rhain fod yn rhywogaethau a ganfuwyd yn Sir Gaerfyrddin (cofnodion ar ôl 2000) sydd:

• yn brin yn genedlaethol, dan fygythiad neu'n anfynych
• yn brin yn Sir Gaerfyrddin
• ar y rhestr Goch

a lle bo Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol am sicrhau bod y rhywogaeth yn goroesi ac yn ffynnu, a'n bod yn gallu nodi'r camau angenrheidiol o ran cadwraeth

| | | |
|---|---|---|
| *Datonychus arquatus* gwiddonyn llysiau'r sipsiwn | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir – cynefin ffen<br>• **Statws presennol:** Llyfr Data Coch y DU: Amhenodol - Ei unig safle hysbys yn y DU yw Maes Arfau Awyr Pen-bre (SN3604) lle cafodd ei ddarganfod gyntaf yn 1997.<br>• **Tueddiadau:** Mae'n un o nodweddion cymhwyso SoDdGA Arfordir Pen-bre. Mae arolwg wedi dangos bod ei statws yno yn Anffafriol: Yn prinhau yma.<br>• **Bygythiadau:** rheolaeth amhriodol ar blanhigion llysiau'r sipsiwn, sy'n fwyd iddo, a'r cynefin ffen cysylltiedig. | • Rheolaeth addas ar y SoDdGA<br>• Arolygu safleoedd addas eraill – Gwarchodfa Natur Cors Ffrwd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| *Eurynebria complanate* chwilen y traeth<br><br>© Paul Aubrey | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr arfordir - traethau tywodlyd gyda thwyni arfordirol yn cefnu arnynt<br>• **Statws presennol:** Mewn perygl<br>Wedi'i gyfyngu i bedwar safle ym Mae Caerfyrddin, gan gynnwys Cefn Sidan (Pen-bre) a Thwyni Talacharn-Pentywyn. Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys 66% o boblogaeth y DU (mae'r 33% arall ar Dwyni Whiteford)<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau.<br>• **Bygythiadau:** Cael gwared â malurion ar draethau sy'n darparu cynefin<br>Gall stormydd difrifol y gaeaf ysgubo safleoedd gaeafu ar flaenau'r twyni. | • Codi ymwybyddiaeth ynghylch presenoldeb y rhywogaeth hon, yn enwedig ymhlith rhai sy'n glanhau'r traethau. |